Caerdydd a'r Fro

# NewURDDion

## Caerdydd a'r Fro

Pecyn gwybodaeth gan Adran Ieuenctid a Chymuned ac Adran Chwaraeon yr Urdd yn ardal Caerdydd a'r Fro ar gyfer tymor yr Haf 2021.
*Information pack from the Youth and Community Department and the Sports Department in Cardiff and the Vale of Glamorgan for the Summer term of 2021*



**Diolch enfawr i bawb am eich cymorth dros y tymor ddiwethaf, mae'n gyfnod anodd i bawb ond rydym fel rhanbarth yn gwerthfawrogi eich brwdfrydedd a'ch parodrwydd i estyn llaw i ni fel mudiad.**
**Pasg Hapus! Happy Easter!**

www.urdd.cymru


Facebook: UrddCaerdyddFro

Twitter: UrddCaerdyddFro

Instagram: Urdd_CaerdyddarFro / ChwaraeonCAF

Chwaraeon

# Darpariaeth Chwaraeon yr Urdd yng Nghaerdydd a'r Fro



**#ActifAdref**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, ers hanner tymor Chwefror, mae adran chwaraeon yr Urdd wedi bod yn hynod o brysur yn cynnig llu o weithgareddau amrywiol i aelodau'r Urdd ledled Cymru. Mantais o fod yn aelod o'r Urdd oedd medru cofrestru ar-lein a chael gwneud y gweithgareddau yma am ddim drwy ddefnyddio Zoom. Y gweithgareddau a gynigwyd oedd pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi, gymnasteg, pêl-fasged a sesiynau ffitrwydd. Roedd y rhain ar gyfer pawb o oedran dosbarth derbyn i flwyddyn 6. Braf oedd cael ymateb gwych i'r syniad #ActifAdref gan mai dyma'r unig ffordd i rai plant barhau i fwynhau gweithgareddau corfforol. Hefyd, mae hyn wedi bod yn hollbwysig i ffitrwydd ac iechyd meddwl plant.

**Darpariaeth Cynllunio, Paratoi & Asesu (CPA)**

Fe hyfforddodd tîm Chwaraeon Caerdydd a'r Fro sesiynau gymnasteg ar-lein i Ysgol Pencae tymor diwethaf. Dysgodd y disgyblion sut i wneud olwyndroi, llawsafiadau, sgiliau cydbwysedd, neidio a sut i lanio yn gywir. Ar gyfer plant dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a 2 fe gynhaliwyd sesiynau 20 yr wythnos gan Jac a Morgan, yn ogystal a sesiynau 40 munud yn wythnos i blant ym mlynyddoedd 3 i 6. Roedd y plant wrth ei boddau, ac roedd yn fwynhad gweld gwên ar eu hwynebau. Os hoffech chi wybodaeth pellach am ein darpariaeth CPA i ysgolion cysylltwch â ryandavid@urdd.org."





**#ProsiectLles**

Ymunwch â'n cyfres o sesiynau Iechyd a Lles digidol gydag arwyr chwaraeon ac wynebau cyfarwydd Cymru. Ein bwriad yw darparu gwybodaeth ac addysgu pobl ifanc am sut mae Chwaraeon a chadw'n heini yn helpu gydag iechyd, lles a pherfformiad. Mae gwestai yn cynnwys chwaraewyr Pêl-droed Cymru, Natasha Harding, Angharad James a pencampwr y byd Aled Davies MBE."

Mae cofrestru i bob darpariaeth chwaraeon yn hanfodol.
I archebu lle cliciwch yma.


**Am fwy o wybodaeth**

**chwaraeon@urdd.org**


Ryan David
Uwch Swyddog Cymunedol Chwaraeon
Caerdydd a'r Fro
ryandavid@urdd.org / 07773 240674

**Wesyn Dafydd & Jac Jenkins**
Swyddogion Cymunedol Chwaraeon
Caerdydd a'r Fro
wesyndafydd@urdd.org | jacjenkins@urdd.org


Chwaraeon urdd.cymru/chwaraeon

Chwaraeon

# Urdd Sport Provision in Cardiff & The Vale of Glamorgan



**#ActifAdref**

During the last weeks, since the February half-term, the Urdd's sports department has been very busy offering various activities to Urdd members across Wales. One advantage of being an Urdd member was being able to register online and take part in these activities for free using Zoom. The activities on offer were netball, football, rugby, gymnastics, basketball and fitness sessions. These were for everyone from reception class to year 6. It was great to get a fantastic response to the idea of #ActifAdref as this was the only way for some children to continue to enjoy physical activities. Also, this has been tremendously important for children's fitness and mental health.

**Planning, Preparation & Assessment Provision (PPA)**

The Cardiff and Vale Sports team coached online gymnastics sessions for Ysgol Pencae last term. The pupils learned how to cart-wheel, hand stand, balance, jump and how to land correctly. For reception class, year 1 and 2 children, Jac and Morgan ran a 20 minute weekly session with a 40 minute weekly session for children in years 3 to 6. The children we saw enjoyed and had smiles on their faces throughout. If you would like to find out more about our PPA provision for schools please contact Ryan at ryandavid@urdd.org.





**#ProsiectLles**

Join our series of digital Health and Wellbeing sessions with Welsh sporting heroes and faces. Our aim is to provide information and educate young people about how Sport and keep fit helps with health, well-being and performance. Guests include Welsh Footballers Natasha Harding & Angharad James and world champion Aled Davies MBE.

Registration is essential for all sports provision.
To book a place click here.

**For more information:**

**chwaraeon@urdd.org**

**Ryan David**
Senior Community Sport Officer
Cardiff & Vale
ryandavid@urdd.org / 07773 240674

**Wesyn Dafydd & Jac Jenkins**
Community Sport Officers
Cardiff & Vale
wesyndafydd@urdd.org | jacjenkins@urdd.org

Chwaraeon urdd.cymru/chwaraeon

# Darpariaeth Adran Ieuenctid a Chymuned yr Urdd yng Nghaerdydd a'r Fro

Urdd



## Clybiau Ieuenctid - Clwb Bro Morgannwg a Clwb Caerdydd

Cyfle i gyfarfod ffrindiau, creu ffrindiau newydd a chael hwyl mewn awyrgych ddiogel. (blynyddoedd 7-9)

Ar hyn o bryd mi fydd y clybiau ar gael dros Zoom yn wythnosol. ond yn gobeithio cynnal sesiynau wyneb yn wyneb pan y gellir. E-bostiwch Lewys am wybodaeth, mae croeso i bawb!

## Clwb Ni

Clwb am ddim i blant cynradd Bro Morgannwg. Dewch i ymarfer eich Cymraeg drwy weithgareddau a gemau gwahanol. Cysylltwch a Lewys am wybodaeth.

**Gweithgareddau digidol. Ymunwch yn y sesiynau i gael sgwrsio, creu ffrindiau a chael hwyl!**

Yr Awr Fawr (Cynradd)

Yr Awr Fwy (Uwchradd)

Y Sgwrs (14+)



## Dysgwyr

Cysylltwch â Lewys am wybodaeth am gyfleoedd i ddysgwyr



## Y Celfyddydau

Mae gan Urdd Caerdydd a'r Fro yr adnoddau, unigolion a sgiliau i redeg amrywiaeth o sesiynau celfyddydol. O sesiynau ysgrifennu cerddoriaeth, gweithdai recordio i glybiau Ukulele (a llawer mwy). Cysylltwch er mwyn trefnu clwb, gweithdy neu sesiwn un-dydd gyda'r adran.

Mae yr Urdd wedi sefydlu partneriaeth gyda Clwb Ifor Bach a Maes B. Dros y misoedd nesaf mi fydd llwyyth o gyfleoedd gwahanol i bobl ifanc 16+ gymeryd rhan. Gwyliwch allan am weithdai a cyrsiau preswyl dros yr haf.

Cofrestrwch ar gyfer popeth ar https://www.urdd.cymru/cy/ieuenctidachymuned/

**Am fwy o wybodaeth**

**Lewys@urdd.org**


Lewys Wyn Jones
Swyddog Cymunedol
Caerdydd a'r Fro
Lewys@urdd.org / 07768 333 120

**Elin Siriol**
Swyddog Ieuenctid
Caerdydd a'r Fro
ElinSiriol@urdd.org

# Youth and Community Department Provision in Cardiff and the Vale of Glamorgan

Urdd



**Youth Clubs - Cardiff Youth Club and Vale Of Glamorgan Youth Club**

A chance to meet friends, make new friends and have fun in a safe environment. (years 7-9) At the moment the clubs will be held weekly over Zoom, but we hope to hold face-to-face sessions when possible. Email Lewys for information, everyone is welcome!

**Clwb Ni**

A free kids club for any primary aged Welsh speakers and learners in the Vale of Glamorgan. Contact Lewys for more information.

**Digital activities. Join to talk, make friends and have lots of fun!!**

Yr Awr Fawr (Primary)

Yr Awr Fwy (Secondary)

Y Sgwrs (14+)



**Learners**

Contact Lewys for opportunities for Welsh language learners



**The Arts and Creative Sessions**

The Cardiff and Vale Guild has the resources, individuals and skills to run a variety of arts sessions. From music writing sessions, recording workshops to Ukulele clubs (and much more). Contact to arrange a club, workshop or one-day session with the department.

The Urdd has established a partnership with Clwb Ifor Bach and Maes B. Over the coming months there will be a whole host of different opportunities for young people aged 16+ to take part. Look out for workshops and residential courses over the summer.

Register for the activities now!

https://www.urdd.cymru/en/youth-and-community/

**For more information**

**Lewys@urdd.org**


Lewys Wyn Jones
Community Officer
Cardiff and the Vale of Glamorgan
Lewys@urdd.org / 07768 333 120

**Elin Siriol**
Youth Officer
Cardiff and the Vale of Glamorgan
ElinSiriol@urdd.org

# TG Lurgan
# Golau'n Dallu
# Iestyn Gwyn Jones

Urdd





Ddiwedd flwyddyn ddiwethaf rhyddhawyd can ar y cyd rhwng TG Lurgan ac Urdd Gobaith Cymru. Roedd y fideo yn hynod boblogaidd, a denwyd sylw ar draws y byd.
Mae TG Lurgan yn sefydliad sy'n rhyddhau fersiynau Gwyddelig o ganeuon cyfredol ar eu sianel YouTube, ac wedi denu dros 44 miliwn o wylwyr hyd heddiw –sy'n ei gwneud y sianel iaith leiafrifol fwyaf poblogaidd yn y byd
Mae'r fideo wedi ei wylio dros 100,000 o weithiau ar bob platfform. Un o'r unawdwyr yn y cynhyrchiad arbennig oedd Iestyn Gwyn Jones, disgybl chweched yn ysgol Plasmawr. Dyma oedd ganddo i'w ddweud.

(Gwyliwch y fideo yma)

**Iestyn Gwyn Jones**

*Wnes I wir fwynhau bod yn rhan o broject Urdd X TG Lurgan gan iddo fod yn broofiad gwbl wahnaol i'r arfer a'n un llwyddiannus iawn gan ddod a bobl ifanc Cymru ac Iwerddon at eu gilydd. Roedd e'n project hwylus, creadigol a llawn egni sef yr union beth roedd angen mewn cyfnod o unigrwydd ac undonedd. Roedd gen I restr hir iawn o bethau roeddwn I eisiau ei wneud dros y flwyddyn ddwethaf, ac er nad oedd rhedeg lawr fy stryd yn canu a'n recordio fy hun gyda selfie stick yn un o rhain fe wnes I fwynhau'r profiad gwyllt a gwallgo' yma yn fawr iawn. Dwi'n edrych ymlaen I gymryd rhan yn y ddwy gan nesaf a'n awyddus I weld beth fydd ffurf a'r syniadau creadigol Newydd/gwahnaol fydd ynghlwm a nhw. Dwi'n wir obeithio daw projectau gwahanol a diddorol fel hyn yn y dyfodol agos.*



